**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Suzy Davies AC
Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu

8 Rhagfyr 2017

Annwyl Suzy

Ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 7 Tachwedd 2017 mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018-19.

Fel y byddwch wedi sylwi o'r adroddiad, un o'n casgliadau oedd y dylai'r Pwyllgor gynnal ymchwiliad er mwyn canfod sut y mae seneddau eraill yn cyllidebu ar gyfer gwariant yn ymwneud â chyflogau a lwfansau Aelodau. Yn ystod ein cyfarfod ar 7 Rhagfyr 2017, cytunwyd ar gylch gorchwyl ein hymchwiliad, sydd fel a ganlyn:

Ystyried:

- sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn rhagweld ei gyllideb ar gyfer penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau;
- a yw'r ffordd y mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu gwybodaeth am y tanwariant yn glir ac yn dryloyw;
- sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn penderfynu defnyddio'r tanwariant ar ôl cyllido penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau; a
- sut y mae seneddau eraill yn y DU a thu hwnt yn cyllidebu ar gyfer gwariant yn ymwneud â chyflogau a lwfansau Aelodau.

Hoffem eich gwahodd i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i drafod y materion hyn. Cyn y cyfarfod hwnnw, byddai'n ddefnyddiol cael papur ysgrifenedig gennych sy'n mynd i'r afael â'r meysydd yn y cylch gorchwyl sy'n berthnasol i'r Comisiwn, fel y nodir uchod, a hynny erbyn **dydd Gwener 9 Chwefror 2018**. Y swyddog sy'n arwain ar yr

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

ymchwiliad hwn yw Leanne Hatcher. Bydd Leanne yn cysylltu â'ch swyddogion i wneud y trefniadau angenrheidiol.

Os bydd angen unrhyw eglurhad neu wybodaeth ychwanegol arnoch, cysylltwch â Leanne: Leanne Hatcher, Clerc y Pwyllgor, 0300 200 6343, SeneddCyllid@cynulliad.cymru

Yn gywir



Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*